

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd N Clarke

Ward:Notais

Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Notais ar 8 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 83 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth [am fy rolau](#), [cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn](#) y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

Rwyf wedi mynd i gyfarfodydd PACT lle rwyf wedi siarad ag etholwyr ar amrywiaeth o faterion. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â'r PCSO lleol ar sawl achlysur er mwyn deall pa faterion o safbwynt yr heddlu sy'n cael eu profi yn fy ward a hefyd i nodi pa faterion y dylwn fod yn ymwybodol ohonynt.

Rwyf wedi ymdrin â nifer o gwynion ynghylch y contract gwastraff newydd a ddechreuodd ar ddechrau blwyddyn newydd y cyngor a hefyd ymdrin â nifer o faterion y cysylltodd etholwyr â mi yn eu cylch yr oeddent yn credu bod angen sylw arnynt.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r aelod ward o'r ward gyfagos (Bae Rest) rydym wedi ceisio datblygu mwy o nodweddion diogelwch ffyrdd o amgylch ein hysgol leol (Ysgol Gynradd West Park) er mwyn diogelu disgyblion yn sgil materion parcio drwy gronni ein harian cronfa gweithredu yn y gymuned. Mae'r cynllun yn y broses o gael ei llunio a'i

chostio o hyd. Felly gobeithio y caiff y cynllun ei weithredu yn y dyfodol agos. Yn sgil cynnig CBSP i wario £188,000 yn llai ar lwybrau bysiau â chymhorthdal, helpais i drefnu cyfarfod cyhoeddus ym Mhafiliwn y Grand er mwyn trafod tynnu gwasanaethau 61/63B ac 803 yn y dref yn ôl a chael gwybod barn aelodau o'r cyhoedd. Roedd rhif 61 a 63B yn effeithio ar ward Notais.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Fel aelod o Gyngor Tref Porthcawl rwyf wedi bod yn ceisio symud safle'r Cyngor Tref i safle newydd yn y dref. Rwyf hefyd wedi monitro gosod biniau newydd ym Mhorthcawl ac o'i gwmpas a brynwyd gan Gyngor Tref Porthcawl.

Yn fy amser rhydd rwy'n cymryd rhan weithredol gyda Cŵn Tywys Cymru, RNLI Porthcawl a Chadetiaid Môr Porthcawl.

Y Cyngorydd Norah Clarke

Dyddiad: 8 Mai 2018